


# CYFRES
# WHO LET THE GODS OUT?

## Maz Evans

## ADNODDAU AR GYFER ADRANNAU ALLWEDDOL A GWEITHGAREDDAU

www.maz.world

@maryaliceevans

| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig Fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| **Simply the Quest**<br><br>Derbyn llythyr Dad a dysgu am ei fywyd | • Sut oedd Elliot yn teimlo pan gafodd lythyr ei Dad?<br>• Pam yn eich barn chi roedd am ei gadw'n gyfrinach?<br>• Sut fuasech chi'n teimlo wrth ddarllen y llythyr?<br>• Pam oedd Elliot yn dymuno dysgu rhagor a, fywyd ei dad?<br>• Ble mae'n mynd i ddysgu rhagor am ei dad?<br>• Tynnwch linell amser o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod diwrnod y digwyddiad. | peril<br>resembled<br>panted<br>kardia<br>instinctively<br>flailing<br>discreetly<br>comprehend<br>forlornly<br>triumphant<br>constellation<br>chortled<br>embittered<br>feeble<br>beneficial<br>woeful<br>reluctantly<br>archived<br>taunted<br>rummaged<br>stalactites<br>lurid | YSGRIFENNU • Crëwch broffiliau cymeriadau ar gyfer y Duwiau newydd y byddwch yn cwrdd â hwy wrth ddarllen trwy'r llyfr..<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch grynodebau byr o bob pennod.<br><br>CELF • Dyluniwch Dduw newydd a allai helpu Elliot â'i ymdrechion i ganfod y Garreg Aer.<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch gyflwyniad i hyrwyddo menter busnes newydd Hercules.<br><br>ATHRONIAETH • Crëwch swigod meddwl i gyfleu barn Virgo am fynd i'r ysgol. |
| Rhyddhau Thanatos a'i weithredoedd wedi hynny | • Sut cafodd Thantos ei ryddhau?<br>• Ble'r oedd yn cael ei gadw dan glo?<br>• A yw'n syniad da iddo gael ei rhyddhau?<br>• Â pha fath o anifail fuasech chi'n cymharu ei achubydd?<br>• Pam mae'n bryd iddo gael ei ryddhau?<br>• Beth oedd rhan Hyphos yn y cynllun a pham mae hynny'n bwysig?<br>• Pam mae Thanatos yn mynd ag Elliot i Tartarus?<br>• Beth mae Thanatos yn ceisio'i wneud i Elliot? | | |




| Llyfr ac Adran | Cwestiynau Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Simply the Quest<br><br>Cwrdd â'r Frenhines (pennod 22) | • Pam wnaeth Jason dynnu sylw'r bobl a oedd o amgylch Palas Buckingham?<br>• Sut oedd Elliot yn teimlo pan beidiodd y gynnau â phwyntio ato? Sut wyddoch chi?<br>• Sut fuasech chi'n teimlo yn cwrdd â'r Frenhines?<br>• Sut mae'r Frenhines yn cadw'n heini?<br>• Pwy ddaeth i'r parti heb wahoddiad? Pam?<br>• Beth yw ystyr 'your bread is buttered'? (t.230)<br>• Beth yw maddeuant brenhinol a pham mae agen hynny? | unfurling<br>traitor<br>prophecy<br>bluffing<br>whimper<br>ushered<br>tentatively<br>refurbishment<br>effigies<br>brandishing<br>emerged<br>formidable<br>surveyed<br>lyre<br>strum<br>profoundly<br>sable futile<br>liability<br>summon<br>cordially<br>plummet | YSGRIFENNU • Ysgrifennwch lythyr oddi wrth Virgo at aelodau eraill y Sidydd i egluro pam ddylid dychwelyd ei 'kardia' iddi hi.<br><br>YSGRIFENNU • Cymharwch gymeriadau Mr Boil a Mr Sopweed.<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch gwestiynau i Elliot ymchwilio iddynt i'w helpu i ganfod gwybodaeth am ei Dad.<br><br>CELF • Tynnwch lun o'r Ogof Cwsg a Marwolaeth a lluniwch fodel ohoni gan ddefnyddio bocs esgidiau. |
| Adfer y Garreg Aer | • Ble mae'r Garreg Aer wedi'i chuddio?<br>• Pam allai fod yn anoddach i Elliot a'i griw o Dduwiau ei hadfer?<br>• Beth mae'r Garreg Aer yn ei wneud?<br>• Pam mae Elliot yn mynd at Theseus a Jason i ofyn am eu cymorth? Beth mae'r ddau ohonynt yn ei roi iddo?<br>• Pam mae'n dda bod yr Amgueddfa Hanes Genedlaethol yn cael ei hailwampio?<br>• Sut mae Theseus a Jason yn helpu ein harwyr yn yr amgueddfa er nad ydynt yno?<br>• Wrth gyrraedd y fowt, sut maent yn tynnu'r garreg o'i chês? | | |




| Llyfr ac Adran | Cwestiynau Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Simply the Quest | | exasperation<br>nebulous<br>monarch<br>scolded<br>exuded<br>ammunition<br>meticulous<br>subterranean<br>brayed<br>stampede<br>precariously<br>ruthless<br>burden<br>palaver<br>valour<br>desist<br>simultaneously<br>maladies<br>obscuring<br>incredulously | CERDDORIAETH • Crëwch drac sain ar gyfer yr olygfa pan gaiff Thanatos ei ryddhau. Ymchwiliwch ynghylch cerddoriaeth ffilmiau sydd a golygfeydd tebyg.<br><br>ATHRONIAETH • Ystyriwch a fuasech yn ymddwyn fel mae Elliot yn ymddwyn a gofynnwch gwestiynau am ei gymhellion.<br><br>DRAMA • Meddyliwch am jôcs y gall Virgo eu hadrodd wrth Elliot pan fydd yn teimlo'n drist.<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch gerdd am rywun sy'n arwr yn eich tyb chi.<br><br>DRAMA • Actiwch yr olygfa gyda'r Frenhines (t. ennod 22). |




| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Beyond the Odyssey<br><br>Yr ymweliad lles | • Pam ddigwyddodd yr ymweliad lles?<br>• A oedd yr ymweliad yn ofynnol yn eich tyb chi?<br>• Pam oedd angen i'r Duwiau sicrhau bod Josie yn edrych ar ei gorau?<br>• Yn eich barn chi, a ydy Elliot yn hoffi Mr Trick? Pam tybed?<br>• Pam mae pethau'n cychwyn mynd o'u lle i Elliot yn ystod yr ymweliad? Sut mae'n teimlo oherwydd hyn yn eich tyb chi?<br>• Pam fu'n rhaid i Elliot 'fentro cael cipolwg' ar y Duwiau trwy'r ffenestr?<br>• Ar ddiwedd yr ymweliad, beth wnaeth i Josie deimlo mor ofidus? | sternly<br>array<br>slumber<br>spontaneously<br>sumptuous<br>unrequited<br>sheepish<br>austere<br>unsubstantiated<br>crucial<br>crooked<br>colossal<br>manoeuvred<br>unanimous<br>reverberated<br>ushered<br>analyse coup<br>stakes<br>treacherous<br>gazebo<br>truant | HANES • Ymchwiliwch i'r Anthem Genedlaethol a'i dysgu (ac anthemau cenedlaethol y byd).<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch grynodeb o'r ddwy stori ddiwethaf gan ddychmygu mai chi yw Elliot yn adrodd hanes popeth sydd wedi digwydd wrth Dave.<br><br>HANES • Ymchwiliwch i hanes y Titaniaid.<br><br>YSGRIFENNU • Newidiwch ddewisiadau ieithyddol Mr Trick yn ystod yr ymweliad lles i'w troi'n iaith fwy ffurfiol.<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch adroddiad o safbwynt yr athro am yr ymweliad lles. |
| Dadlau a'r Duwiau am Hypnos (tt.77-83) | • Beth yw ystyr 'fool's errand'?<br>• Pam allai Dave a'r Duwiau amau Hypnos?<br>• Beth yw diben diod hud Panacea yn eich tyb chi? Pam mae ar Elliot angen hynny?<br>• A yw Hypnos yn credu bod cydweithio rhwng meidrolion ac anfarwolion yn syniad da? A allwch chi ganfod tystiolaeth i ategu eich syniadau?<br>• Disgrifiwch deimladau Elliot pan mae Zeus yn dweud wrtho na all gael y ddiod hud ar unrhyw gyfrif?<br>• Beth oedd wltimatwm Elliot i Zeus?<br>• A oedd hi'n syniad da rhoi wltimatwm i'r Duwiau yn eich barn chi? | | |




| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Beyond the Odyssey<br><br>Ymweld ag ynys y Seiclopsiaid (pennod 12) | • Beth allwch chi weld ar yr ynys?<br>• Yn eich barn chi, sut maent oll yn teimlo wrth gyrraedd yr ynys?<br>• Disgrifiwch y lle ble mae Polyphemus yn byw.<br>• Pam gafodd Zeus ei wthio i'r awyr?<br>• Sut y caniatawyd i Elliot fynd i mewn i'r tŷ ond nid y lleill?<br>• Pam allai Elliot fod yn ystyried mynd i mewn i dŷ Polyphemus?<br>• Beth yw ystyr 'hydroffobig'?<br>• Pam mae Elliot yn mynd i mewn i dŷ Polyphemus? A yw'n llwyddo i gyflawni ei fwriad?<br>• Mae Elliot yn smalio bod yn weithiwr proffesiynol diogelwch; pam mae'n gwneud hyn?<br>• Sut mae Elliot yn defnyddio'r smwddi llysiau sy'n cael ei roi iddo? | serenely<br>vacant<br>insolent<br>churning<br>conclusively<br>momentarily<br>imperceptibly<br>pleaded<br>incredulously<br>deceitful<br>wistfully<br>corrupting<br>companion<br>curtsey soiled<br>confidential<br>acquaintance<br>jeopardy<br>ascending<br>entrepreneurs<br>idyllic anguish | GWYDDONIAETH • Ymchwiliwch i ddementia a'r gwaith y mae elusennau yn ei wneud i helpu pobl y mae'r cyflwr arnynt.<br><br>GWYDDONIAETH • Crëwch ddiod hud i help Elliot a'i griw yn y stori – defnyddiwch fathemateg i ystyried cyfraddau cynhwysion.<br><br>TECHNOLEG • Ymchwiliwch i ddulliau cludiant eraill (ac eithrio teithio ar y môr) i helpu Hypnos i gyrraedd ynys y Seiclopsiaid.<br><br>TECHNOLEG • Dyluniwch ddull cludiant newydd sbon a disgrifiwch sut mae'n gweithio. |
| Celwyddau Particia (pennod 19) | • Sut mae Polyphemus yn gorfod mynd i'w ystafell banig?<br>• I beth mae Patricia yn mynd i Home Farm?<br>• Diffiniwch 'miffed' a disgrifiwch pam mae Dave yn teimlo felly.<br>• Pa 'drefniant' mae ar Patricia Porshley-Plum ei eisiau gyda Dave?<br>• Sut mae hi'n bygwth Dave yn ystod eu sgwrs?<br>• Pam mae'n well ganddi'r Dave newydd na'r hen Dave? | | |




| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
| --- | --- | --- | --- |
| Beyond the Odyssey<br><br>Mynd adref (pennod 28) | • Pam mae Elliot ar garlam gwyllt i fynd adref?<br>• Pa feddyliau a allai fod yn troi ym mhen Elliot wrth iddo nesáu at Home Farm?<br>• Pam mae gan Dave fag yn y cyntedd? Beth sydd ynddo tybed?<br>• Sut yn eich barn chi mae Elliot yn teimlo pan mae Patricia Porshley-Plum yn ymddangos?<br>• Pam mae Elliot yn galw Dave yn 'fradwr'? | captivity<br>descent<br>harbouring<br>encroaching<br>doddery<br>dissemble<br>intoned<br>bucolic<br>vast<br>alleviating<br>rifled<br>languishing<br>copse<br>azure<br>ethereal<br>mournfully<br>commotion<br>corrupt<br>destitute<br>galleon<br>crevice<br>grimaced | YSGRIFENNU • Smaliwch mai chi yw Thanatos ac ysgrifennwch araith i berswadio'r daemoniaid eraill i ymuno â'ch ymgyrch i ddwyn y Cerrig Anhrefn.<br><br>DYLUNIO • Crëwch hysbyseb/gwefan ar gyfer Cwmni Teithio Don'tcAIR.<br><br>DAEARYDDIAETH • Ymchwiliwch i deithiau hedfan o amgylch y byd a chynlluniwch wyliau gan gadw at gyllideb benodol. Darganfyddwch pa mor bell y gallech chi fynd a swm benodol o arian.<br><br>CELF • Tynnwch lun o'ch ynys ddelfrydol a'i chymharu â'r ynys baradwysaidd ble mae'r Seiclopsiaid yn byw. |
| Y Dave Go Iawn | • Pwy oedd yn smalio bod yn Dave? Pam oeddent yn smalio bod yn Dave o'r dechrau?<br>• Sut mae pawb yn teimlo ar ôl darganfod nad y Dave go iawn oedd Dave?<br>• Sut mae pawb yn darganfod hynny?<br>• Beth mae ar y Dave go iawn ei eisiau pan mae'n dychwelyd i Home Farm?<br>• Pam mae'r Dave go iawn yn dychwelyd i Home Farm? Beth yw ystyr 'ablaze with anger'? Allwch chi ragweld beth fydd yn digwydd nesaf? | | |



| Llyfr ac Adran | Cwestiynau Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Beyond the Odysse y | | adversary<br>cacophony<br>democratic<br>belligerent<br>remnants<br>absurd<br>concludes<br>plummet<br>accursed<br>ablaze | YSGRIFENNU • Ysgrifennwch ddarn i'r Daily Argus am beth ddigwyddodd pan ymwelodd Elliot â sêff Polyphemus..<br><br>GWYDDONIAETH • Ymchwiliwch i ganfod gwybodaeth am ruddemau a gemau gwerthfawr eraill.<br><br>DImmortalsGotTalent:logo<br><br>DIWYLLIANNAU • Lluniwch fwydlen ar gyfer bwyty bwyd cyflym Circe ac ymchwiliwch i ganfod gwybodaeth am fwyd traddodiadol Gwlad Groeg. |



| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
| --- | --- | --- | --- |
| Against All Gods<br><br>Canfod y Garreg Dân | • Mae'r Garreg Dân wedi'i gwneud o ba fath o em?<br>• Ble mae'r Garreg Dân?<br>• Pam oedd hi'n anodd i Elliot feddwl am Josie pan oedd yn ceisio bod yn ddewr?<br>• Beth oedd gorchwyl Elliot?<br>• Pam na wnaeth y glaw y gwnaeth Elliot ei gonsurio ddiffodd y tân?<br>• Beth wnaeth i Elliot gasáu Nyx?<br>• Beth sydd angen i Elliot ei wneud i gael y garreg olaf?<br>• Pam nad oedd Elliot yn cysgu'n dda iawn?<br>• Pam benderfynodd Elliot beidio â mynd gyda Hypnos yn y diwedd? | Balustrade<br>unbidden<br>crucial<br>involuntarily<br>gesturing<br>equilibrium<br>confines<br>dumbstruck<br>fruitlessly<br>appreciatively<br>relinquished<br>burnish<br>surging<br>incentive<br>reclining<br>briskly<br>rummaging<br>locksmith<br>yanked<br>negotiating<br>torrent<br>towering | YSGRIFENNU • Darllenwch y gerdd a chwiliwch am eiriau sy'n odli. Ysgrifennwch eich cerdd eich hun gan ddefnyddio'r geiriau hyn.<br><br>YSGRIFENNU • Ysgrifennwch gerdd/rap i grynhoi'r stori hyd yn hyn.<br><br>CELF • Tynnwch lun i ddangos sut rydych chi'n dychmygu mae'r Cerrig Anhrefn yn edrych yn yr oriawr.<br><br>GWYDDONIAETH • Ymchwiliwch i ganfod gwybodaeth am ffynonellau ynni adnewyddadwy. Dyluniwch eich rhai eich hun.<br><br>ATHRONIAETH • Trafodwch feddylia ac emosiynau Elliot wrth iddo orfod plymio i mewn i'r afon tân; siaradwch am ddewrder. |
| Ymladd â Thân (pennod 6) | • Sut cadwyd Elliot yn ddiogel?<br>• Llais pwy allai Elliot ei glywed? Beth oedd hi'n ei ddweud wrtho?<br>• Ai llais go iawn ynteu ystryw oedd y llais?<br>• Pam oedd Virgo yno? Sut oedd hi'n teimlo?<br>• Cyfnewidiodd Elliot y Cerrig Anhrefn am fywyd eu ffrind; a oedd hynny'n benderfyniad da yn eich barn chi?<br>• Pam wnaeth Elliot 'ildio' ('crumble')?<br>• Roedd rhyfel ar fin cychwyn: pwy oedd y ddwy ochr?<br>• Sut fuasech chi'n disgrifio sut defnyddiwyd y Cerrig Anghrefn?<br>• Pam mae Thanatos yn gwysio'r holl ddaemoniaid newydd?<br>• Beth sydd ar Elliot ei eisiau gan Thanatos? | | |




Chicken House

| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| **Against All Gods**<br><br>Peidiwch ag Edrych yn Ôl (pennod 10) | • Yn eich barn chi, pam nad yw Elliot yn dymuno siarad â Josie?<br>• Beth sy'n atal Elliot rhag troi rownd?<br>• A ydych chi'n credu ei bod hi'n hawdd i Elliot beidio â throi rownd? Pam?<br>• Pam nad yw Josie yn dymuno dod yn ôl yn fyw?<br>• A yw Elliot yn blentyn dewr? Pa ansoddeiriau eraill fuasech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio?<br>• Â beth mae Josie yn cymharu ei salwch? Pam?<br>• Gyda phwy fydd Josie yn y byd nesaf?<br>• Pam mae Elliot yn 'sibrwd' wrth ffarwelio a'i fam? | throng<br>winced<br>conscience<br>stubborn<br>umpteenth<br>salute<br>retrieve<br>simpered<br>upstanding<br>revelled<br>fitfully<br>indignation<br>ruse<br>feeble<br>resentfully<br>bellicose<br>foreboding<br>resolutely<br>flagon<br>uproarious<br>accustomed<br>glared | YSGRIFENNU • Ysgrifennwch erthygl bapur newydd neu lluniwch boster i roi gwybod bod Elliott yn blentyn 'coll'.<br><br>AMRYWIOL • Ymchwiliwch i ganfod gwybodaeth am ofalwyr ifanc a'r elusennau a all helpu.<br><br>HANES • Dychmygwch sut arfau sy'n cael eu defnyddio yn y frwydr a thynnwch luniau ohonynt – defnyddiwch wybodaeth am frwydrau hanesyddol.<br><br>ATHRONIAETH • Ystyriwch beth mae Josie'n ei gynnig i Elliot. Trafodwch fanteision ac anfanteision rhyddid a beth mae hynny'n ei olygu i chi. |
| Rhyfel | • Pam oedd Elliot wedi synnu pan ymddangosodd Virgo a'r Duwiau?<br>• Pam mae'r daemoniaid yn mynd i ryfela yn erbyn y Duwiau a'r meidrolion?<br>• Beth mae'r daemoniaid yn dymuno'i wneud?<br>• Ble'r oedd lleoliad y frwydr?<br>• Beth oedd y Duwiau yn ceisio'i wneud â'u cynlluniau?<br>• A oedd y frwydr fel gwnaethoch chi ddisgwyl? Pam?<br>• Faint o'r daemoniaid a laddwyd?<br>• Ble'r oedd Elliot yn mynd yn ystod y rhyfel? A yw hyn yn syniad da yn eich barn chi? | | |



| Llyfr ac Adran | Cwestiynau<br>Darllen a Deall a Gweithgareddau Syml | Geirfa i'w Thrafod | Gweithgareddau Awgrymedig fesul Pwnc |
|---|---|---|---|
| Against All Gods<br><br>Diwedd y Byd (pennod 21) | • Pam oedd Hypnos yn ffoi rhag Thanatos?<br>• Sut wnaeth Thanatos lwyddo i fod yn fwy cyfrwys na'i frawd?<br>• Pam mae Hypnos yn colli ei kardia?<br>• Sut wnaeth Elliot a Virgo ganfod Thanatos yn y diwedd?<br>• Pam yn eich barn chi wnaeth Elliot achub Hypnos?<br>• Pam na allai Thanatos frifo Elliot?<br>• Ni wnaeth paladr y Garreg Daear frifo Elliot: pam ddim?<br>• Beth ddigwyddodd i Thanatos ar ôl i Virgo achub Elliot rhag y Garreg Daear?<br>• Gan bwy y mae ar Elliot angen cymorth i achub Virgo? Pam mae arno angen cymorth? | scowled<br>anticipation<br>chirped<br>contemplations<br>summoned<br>drawled<br>irrational<br>interference<br>irksome<br>compressions<br>radiance<br>frantically<br>deviate<br>hurtling<br>bewildered<br>procedures<br>insincerely<br>reluctance<br>torrent | DRAMA • Crëwch floedd rhyfel y gellir ei bloeddion pan fydd y Duwiau yn dechrau brwydro..<br><br>HANES • Ymchwiliwch i hanes bywyd Siryf Nottingham.<br><br>YSGRIFENNU • Lluniwch restr o gwestiynau y buasai Dad yn eu gofyn i Elliot a'r rhai y buasai Elliot yn eu gofyn i Dad.<br><br>ATHRONIAETH • Lluniwch restr o'r pethau rydych chi'n eu mwynhau fwyaf o ran byw ar y Ddaear.<br><br>HANES A CHELF • Ymchwiliwch i hanes crochenwaith a serameg y Groegiaid – dyluniwch a chrëwch eich rhai eich hun. |
| Diwedd cyfnod (t. 261- diwedd) | • Mae bod gartref yn brofiad chwerw-felys i Elliot. Cynigwch ychydig o resymau i egluro pam.<br>• Pam yn eich barn chi mae Elliot yn awyddus i bawb adael?<br>• Sut oedd Elliot yn teimlo pan oedd Dad wrth y drws?<br>• Pam oedd Elliot nawr yn teimlo'n ddiogel?<br>• Pan mae Dad yn dweud 'penny for your thoughts' wrth Virgo, am beth oedd hi'n meddwl?<br>• A ydych chi'n cytuno bod Mr Boil yn haeddu maddeuant?<br>• A ydych chi'n credu bod anrheg Virgo i Elliot yn un da? Pam?<br>• Pam yn eich barn chi wnaeth Virgo benderfynu aros ar y Ddaear gydag Elliot a Dad? | | |

